Uwchgynhadledd Newid Hinsawdd a Gwydnwch Cymru – 22 Hydref 2026

O dan Gadeiryddiaeth Prif Weinidog Cymru, y Gwir Anrhydeddus Rhun ap Iorwerth AS

Yn bresennol:

Y Gwir Anrhydeddus Rhun ap Iorwerth AS	Prif Weinidog Cymru
Llyr Gruffydd AS	Y Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd
Siân Gwenllian AS	Y Gweinidog Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio
Nerys Evans AS	Y Dirprwy Weinidog dros Iechyd Cyhoeddus ac Ataliol
Yr Athro Isabel Oliver	Prif Swyddog Meddygol Cymru
Emma Pinchbeck	Prif Weithredwr, Y Pwyllgor Newid Hinsawdd
Sebastien Penzini	Dirprwy Bennaeth Rhanbarthol, Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig dros Leihau'r Risg o Drychinebau
Dawn Docx	Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Fin Monahan	Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Craig Flannery	Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Chris Allsop	Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu Gogledd Cymru
Chris Truscott	Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu De Cymru
John-Paul Wade	Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu Gwent
Gareth Tovey	Undeb y Brigadau Tân
Ade Robinson	Cymdeithas y Swyddogion Tân
Andy Elliott	Cymdeithas y Gwasanaethau Tân ac Achub
Kim Dowsett	Y Pwyllgor Newid Hinsawdd
Ceri Davies	Cyfoeth Naturiol Cymru
Alun Shurmer	Dŵr Cymru
Y Cyng. Anthony Hunt	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
Chris Llewelyn	CLlLC
Y Cyng. Menna Trenholme	Arweinydd CLlLC dros gyfiawnder cymdeithasol, llefarydd ar ran y Gwasanaethau Tân ac Achub, a Dirprwy Arweinydd Cyngor Gwynedd
Sumina Azam	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Kevin Eadon-Davies	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Jonathan Cawley	Parc Cenedlaethol Eryri
Tegryn Jones	Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Y Cyrnol Sion Walker	Y Weinyddiaeth Amddiffyn
Dr Matthew Hort	Y Swyddfa Dywydd
Abi Reader	Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
Ian Rickman	Undeb Amaethwyr Cymru
Fraser McAuley	Cymdeithas y Tirfeddianwyr

Dennis Matheson	Cymdeithas y Ffermwyr Tenant
Elaine Heckley	Y Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd (Confor)
Nigel Pugh	Coed Cadw
Peter Lanfear	Cymdeithas Tir Comin
Derek Walker	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Yr Athro Paul Lewis	Y Panel Cynghori ar Aer Glân
Arfon Williams	RSPB Cymru
Sophie England	Y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol
Jonathan Hughes	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
James Hitchcock	Rewilding Britain (yn cynrychioli Cyswllt Amgylchedd Cymru)
Joe Wilkins	Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Christina Harrhy	Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir
Sam Ward	Climate Cymru
James Bourne	Cymdeithas Cominwyr Blorens
Camilla Curry	Maximising Adaptation to Climate Change Hub

Eitem 1 ar yr agenda – Sylwadau agoriadol gan y Prif Weinidog

1. Agorodd y Prif Weinidog yr uwchgynhadledd drwy gydnabod tanau gwyllt dinistriol yr haf a diolchodd i'r Gwasanaethau Tân ac Achub, partneriaid a chymunedau am eu hymateb. Tynnodd sylw at newid hinsawdd fel sbardun i risgiau cynyddol o danau gwyllt a galwodd am weithredu ataliol ymarferol ar fyrder ac ymateb cyflym i unrhyw ddigwyddiadau. Anogodd bartneriaid i ddysgu o ddigwyddiadau eleni, i ganolbwyntio ar ddod o hyd i atebion yn hytrach na phriodoli bai, ac i gytuno ar flaenoriaethau cyffredin ac ymrwymiad i gyflawni, gyda'r uwchgynhadledd yn nodi dechrau'r broses barhaus o waith ymgysylltu cyfunol.

Eitem 2 ar yr Agenda – Cyd-destun newid hinsawdd a'i ganlyniadau

2. Rhoddwyd cyflwyniad gan Emma Pinchbeck, Prif Weithredwr y Pwyllgor Newid Hinsawdd, a oedd yn tynnu sylw at yr angen i'r DU baratoi ar gyfer hinsawdd sy'n newid yn ddramatig, gyda lefelau mwy eithafol o wres, sychder, llifogydd a thanau gwyllt, gan reoli'r risgiau cynyddol i iechyd, cymunedau, seilwaith a'r economi. Fe wnaeth hi hefyd bwysleisio'r angen i fuddsoddi ar fyrder mewn mesurau addasu, amcanion clir a chamau gweithredu cydgysylltiedig ar draws y llywodraeth, busnesau ac aelwydydd.

3. Rhoddwyd cyflwyniad gan Sebastien Penzini, Dirprwy Bennaeth Rhanbarthol Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig dros Leihau'r Risg o Drychinebau, a oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod y risg o danau gwyllt yn cynyddu'n gyflymach na'r gallu i ymateb iddynt, ac roedd hynny'n cael ei achosi gan newid hinsawdd, cyfrifoldebau darniog, buddsoddiad cyfyngedig, newid mewn defnydd tir a gorddibyniaeth ar lethu tanau. Pwysleisiodd yr angen i flaenoriaethu camau ataliol drwy lywodraethiant integredig, data gwell am risgiau, buddsoddiad parhaus, prosesau gwell o reoli tir a thanwydd, ymwybyddiaeth gyhoeddus, cyfranogiad gan y gymuned, systemau rhybuddio brys, dulliau cryfach o baratoi ar gyfer digwyddiad ac adfer ar ôl digwyddiad yn unol â Fframwaith Sendai.

Eitem 3 ar yr Agenda – Achosion sylfaenol tanau gwyllt, defnydd tir a materion amaethyddol

4. Cydnabu'r Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd y pwysau ar ffermwyr a rheolwyr tir, gan amlinellu hyblygrwydd ariannol a chontractiol a chymorth ar gyfer adfer tir sydd wedi'i ddifrodi, gan gynnwys asesiadau ychwanegol Cyfoeth Naturiol Cymru o'r Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yr effeithir arnynt. Pwysleisiodd yr angen i feithrin gwydnwch rhag tanau gwyllt a phwysau eraill yn ymwneud â'r hinsawdd drwy reoli tir mewn modd sy'n briodol yn lleol, gan dynnu sylw at adfer mawndiroedd, pori wedi'i dargedu a rheoli llystyfiant. Cyhoeddodd y bydd adolygiadau cyflym yn cael eu cynnal o'r dystiolaeth ynghylch rheoli tir a'r Rheolau Llosgi Grug a Glaswellt, gan ofyn am brofiadau ymarferol i ganfod dulliau gweithredu effeithiol, rhwystrau a bylchau tystiolaeth drwy barhau i gydweithio y tu hwnt i'r Uwchgynhadledd.

5. Yn ystod y drafodaeth, gwnaed y pwyntiau canlynol gan y sefydliadau a oedd â chynrychiolaeth yn yr uwchgynhadledd:

   - Nododd **Cyfoeth Naturiol Cymru** dair blaenoriaeth. Yn gyntaf, mae gweithio gyda chymunedau gwledig i lunio camau ataliol effeithiol a'u rhoi ar waith yn hanfodol; ac mae Partneriaeth Llethrau Llon yn enghraifft dda o hynny. Yn ail, mae potensial i dirfeddianwyr ymgorffori gwydnwch rhag tanau gwyllt yn y ffordd y maen nhw'n rheoli tir, p'un a ydynt yn rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ai peidio; mae CNC yn dilyn yr un trywydd gyda'i ystad goedwigaeth yn arbennig. Yn olaf, mae angen sicrhau cydgysylltu effeithiol rhwng ymatebwyr brys wrth ymdrin yn uniongyrchol â digwyddiadau ac wrth gefnogi adferiad ar ôl y digwyddiadau hynny.

   - Pwysleisiodd **Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru** fod y diwydiant ffermio yn barod i chwarae rhan lawn wrth fynd i'r afael â risgiau tanau gwyllt. Dylid ystyried bod ffermwyr yn bartneriaid yn y gwaith o gynllunio a darparu mesurau lleihau risgiau, yn hytrach na gofyn iddynt ysgwyddo rhagor o gyfrifoldebau yn unig. Er enghraifft, mae cyfle clir i gynyddu pori ar yr ucheldir, yn enwedig gan wartheg, er mwyn gwella'r broses o reoli llystyfiant. Ond er mwyn i hynny ddigwydd, mae angen cefnogi mwy o ffermwyr i aros ar y tir ac ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Byddai mesurau eraill yn ymwneud â materion fel ansawdd dŵr a rheoli TB buchol hefyd yn helpu.

   - Nododd **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri** fod parciau cenedlaethol yn cwmpasu tua 20% o Gymru a'u bod mewn sefyllfa dda i gydgysylltu ymdrechion ar lefel gymunedol yn yr ardaloedd hynny. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae yna ddiffyg cydgysylltu gweithgarwch strategol; Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yw'r ffordd amlwg i fynd i'r afael â hyn. Tynnodd sylw hefyd at y potensial i gynlluniau fel Ffermio Bro gefnogi'r gwaith hwn yn strategol, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae tir comin yn peri heriau cymhleth o ran rheoli tir.

- Dywedodd **RSPB Cymru** fod angen sicrhau'r cydbwysedd cywir. Ar y naill law, mae'r llwyth tanwydd ar yr ucheldir yn peri risg difrifol o danau gwyllt; ond ar y llaw arall, mae'r un llystyfiant yn cefnogi bioamrywiaeth, yn storio carbon ac yn lliniaru'r perygl o lifogydd. Dylai fod yn bosibl llunio mesurau sy'n lleihau'r risg o danau gwyllt heb beryglu'r amcanion amgylcheddol ehangach, ond byddai gwneud hynny yn gofyn am ystyriaeth aml-asiantaeth ofalus a sylfaen dystiolaeth gadarn. Tynnodd RSPB Cymru sylw hefyd at waith ymarferol sydd eisoes ar y gweill ar draws ei safleoedd, gan gynnwys mapio risgiau tanau gwyllt, strimynnau atal tân strategol, ymwybyddiaeth ymhlith ymwelwyr, ymchwilio i'r effaith ar dirweddau a chynllunio ar gyfer hynny, a chynigiodd rannu'r gwaith hwn â phartneriaid.

- Roedd **Coed Cadw** o'r farn fod cyfle i wneud llawer mwy o ddefnydd o fapio a data gwell i gefnogi prosesau rheoli tir a gwydnwch rhag tanau gwyllt, gan gynnwys targedu thermol a mapio'r llif hydrolegol ar y tir. Gellid defnyddio'r rhain i gadw dŵr mewn lleoliadau strategol er mwyn lleihau'r risg o danau gwyllt. Fodd bynnag, mae'r system gynllunio yn aml yn rhwystr i'r dull hwn, sy'n golygu y gallai gwaith gymryd blynyddoedd i'w weithredu.

- Disgrifiodd **Cymdeithas Cominwyr Blorens** effeithiau uniongyrchol y tân gwyllt uwchlaw Blaenafon yn Nhorfaen. Roedd llawer o ddefaid wedi cael eu lladd yn y tân, ac mae rhagor yn dal i farw o niwmonia; ac mae ansicrwydd ynghylch sut y byddai'r tân yn effeithio ar ffrwythlondeb mamogiaid ac o ganlyniad i hynny hyfywedd hirdymor diadellau. Roedd y Gymdeithas o'r farn na ddylai ffermwyr orfod delio â pheryglon o'r fath ar eu pen eu hunain, a bod cymorth ariannol i ffermwyr yr effeithir arnynt yn hanfodol. Yn y tymor hwy, bydd angen help i reoli rhedyn, i wneud defnydd mwy ymarferol o losgi dan reolaeth ac i annog pori ar dir comin. Dim ond pe bai ffermwyr a chominwyr yn cael eu cynrychioli'n llawn mewn trafodaethau yn y dyfodol y byddai hyn yn digwydd. Disgrifiodd hefyd yr effaith ar lesiant personol yn sgil delio â'r tân a'i ganlyniadau.

- Roedd **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** yn cefnogi sylwadau'r Gymdeithas yn gryf a nododd y gwaith yr oeddent wedi'i wneud i gefnogi cymunedau lleol. Roedd y Comisiynydd hefyd yn teimlo y gellid gwneud mwy i gynllunio'r defnydd o dir mewn ffyrdd sy'n lliniaru'r risgiau; ac y gallai byrddau gwasanaethau cyhoeddus gynnal asesiadau risg hinsawdd yn eu hardaloedd, a dylent wneud hynny. Fodd bynnag, gallai fod angen adolygu aelodaeth y bwrdd i'r perwyl hwnnw.

- Ategodd **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** y gefnogaeth i waith Cominwyr Blorens. Roedd y Gymdeithas o'r farn bod hyn yn adlewyrchu angen ehangach i ddefnyddio gwybodaeth ffermwyr a thirfeddianwyr i liniaru risgiau ar lefel leol – ond mae hynny'n dibynnu ar sicrhau bod ffermio ar yr ucheldir yn parhau i fod yn fusnes hyfyw. Roedd y Gymdeithas a'i haelodau yn barod i helpu gyda hynny, ac yn croesawu bod yn rhan o'r gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol.

- Ategodd **Undeb Amaethwyr Cymru** y sylwadau blaenorol am bwysigrwydd gwrando ar ffermwyr a thirfeddianwyr yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol – a'u cynnwys i liniaru'r risgiau. Mae angen ail-werthuso llosgi dan reolaeth, a gellid

gwneud mwy a dylid gwneud mwy i gynyddu cyfraddau stocio ar yr ucheldiroedd. Tynnwyd sylw hefyd at ofynion cynllunio ochr yn ochr â rheoliadau ansawdd dŵr a TB buchol fel rhwystrau posibl i reoli tir yn effeithiol ar gyfer pori a gwydnwch rhag tanau gwyllt.

- Roedd **Climate Cymru** yn cefnogi'r galwadau ehangach am waith ymgysylltu â chymunedau ac unigolion yr effeithir arnynt gan danau gwyllt wrth ddatblygu dulliau o liniaru risgiau. Yn eu barn nhw roedd yn fater o fuddsoddi mewn atebion cynaliadwy yn hytrach na'n fater o aberthu. Mae maint a chwmpas y materion wedi creu achos dros wella gwaith cydgysylltu o fewn y llywodraeth hefyd.

- Roedd **Cymdeithas y Ffermwyr Tenant** yn credu y dylid ailystyried targedau ar gyfer plannu coed yng ngoleuni'r achosion o danau gwyllt. Yn ôl y Gymdeithas, mae yna ddulliau eraill, llai peryglus o ddal carbon na choedwigo yng nghyd-destun tân gwyllt.

- Roedd y **Gymdeithas Tir Comin** yn credu bod gofynion ynghylch llosgi dan reolaeth yn cyfyngu'n ormodol ac yn rhy gymhleth. Er ei bod yn ddigon posibl mai cynyddu'r pori ar dir comin yw'r ateb hirdymor, mae'r rhwystrau sy'n atal hynny rhag digwydd yn sylweddol, yn enwedig yn achos gwartheg. Mae hyn yn cael ei rwystro ymhellach gan ffermwyr yn gadael y diwydiant neu'n arallgyfeirio o bori. Tynnodd y Gymdeithas Tir Comin sylw hefyd at y defnydd o strimynnau atal tân fel un ffordd o reoli'r risg o danau gwyllt ar dir comin.

6. Wrth gloi'r drafodaeth, diolchodd y Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd i'r holl gyfranogwyr a nododd yr ystod eang o awgrymiadau cadarnhaol a wnaed. Maent yn her nid yn unig i'r llywodraeth ond i bawb sy'n bresennol; ategodd y Gweinidog Cabinet yr angen am fwy o gydlyniant a chydweithredu rhwng pawb sydd wedi gymryd ran.

Eitem 4 ar yr Agenda – Achosion uniongyrchol tanau gwyllt, ymddygiad dynol a materion iechyd

7. Galwodd y Dirprwy Weinidog dros Iechyd Cyhoeddus ac Ataliol am weithredu ar y cyd i symud o ymateb i argyfyngau i atal argyfyngau, gan gysylltu'r gwaith o addasu i'r hinsawdd a'r Strategaeth Iechyd y Cyhoedd genedlaethol newydd â chynlluniau ehangach, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Hinsawdd a Natur. Gwahoddodd gynigion ar addysg, cyfranogiad gan y gymuned, negeseuon cliriach a chyfyngiadau posibl ar weithgareddau risg uchel mewn ardaloedd risg uchel. Wrth i'r cynigion hyn gael eu datblygu, tynnodd sylw at yr angen i amddiffyn cymunedau ac ymatebwyr brys rhag gwres a mwg, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, cefnogi iechyd meddwl a lles ffermwyr a thirfeddianwyr yr effeithir arnynt, a rhannu profiadau ac arferion da. I gefnogi hynny, bydd y Prif Swyddog Meddygol yn adolygu tystiolaeth y DU a thystiolaeth ryngwladol ar iechyd diffoddwyr tân ac yn adrodd erbyn diwedd 2026.

8. Yn ystod y drafodaeth, gwnaed y cynigion canlynol gan y sefydliadau a oedd â chynrychiolaeth yn yr uwchgynhadledd:

- Roedd **NFU Cymru** yn cefnogi cryfhau Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru fel blaenoriaeth, gyda'r aelodaeth newydd yn cynnwys yr arbenigedd angenrheidiol, yn enwedig ffermwyr, coedwigwyr a chominwyr. Mae angen cylch gorchwyl clir, cyfrifoldebau diffiniedig ac atebolrwydd clir ar y Bwrdd i gefnogi gwaith cydgysylltu cenedlaethol effeithiol o ran atal tanau gwyllt, parodrwydd, ymateb brys ac adferiad ar ôl digwyddiadau.

- Nododd **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro** fod rhywfaint o'r ymddygiad sy'n achosi risgiau tân yn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth yn hytrach na gweithred fwriadol; roedd claddu barbeciws wedi'u defnyddio mewn twyni tywod yn enghraifft o hynny. Roedd yn teimlo bod angen negeseuon wedi'u targedu, gyda chefnogaeth ymgyrch ymwybyddiaeth genedlaethol a gwaith lleol gyda chymunedau, busnesau twristiaeth ac archfarchnadoedd. Roedd yr Awdurdod o'r farn fod yna rôl i Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru wrth gydgysylltu'r gweithgarwch hwn. Gofynnodd yr Awdurdod hefyd a ddylai gwaharddiadau ar werthu barbeciws tafladwy ymestyn i'w defnydd, a phwysleisiodd bwysigrwydd atal ar lefel gymunedol.

- Pwysleisiodd **Coed Cadw** bwysigrwydd meithrin ymwybyddiaeth pobl ifanc o risgiau tanau gwyllt a'u cefnogi i fod yn eiriolwyr cymunedol, gan nodi mai pobl, gan gynnwys pobl ifanc, sy'n achosi'r mwyafrif llethol o danau, naill ai yn ddamweiniol neu'n fwriadol. Fel enghraifft o'i gwaith gyda phobl ifanc, cyfeiriodd yr Ymddiriedolaeth at y broses o recriwtio llysgenhadon atal tanau gwyllt ar draws ei ystad. Mae ei phennaeth Iechyd a Diogelwch hefyd yn cadeirio Fforwm Tanau Gwyllt Cymru a Lloegr, a gallai Llywodraeth Cymru fanteisio ar ei arbenigedd pe bai'n dymuno gwneud hynny.

- Nododd **RSPB Cymru** fod angen ymatebion gwahanol ar wahanol achosion a thymhorau tanau gwyllt. Gallai tanau ym mis Mawrth ac Ebrill ddeillio o golli gafael ar waith llosgi dan reolaeth, a gallai tanau'r haf fod yn ddamweiniol neu'n fwriadol, ac felly, dylai camau ataliol a negeseuon adlewyrchu'r gwahaniaethau hynny. Roedd hefyd yn teimlo y dylai Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru ailedrych ar ei ddiben a'r rhanddeiliaid sy'n cael eu cynrychioli, gan wneud yn siŵr bod atal tanau gwyllt yn rhan o ddull ehangach o sicrhau gwydnwch ecosystemau. Heb y persbectif ehangach hwn, mae perygl y gallai mesurau i fynd i'r afael ag un broblem greu anawsterau mewn mannau eraill. Felly, mae angen dull cytbwys, gan gydnabod nad yw llystyfiant yn gyffredinol yn cynnau heb ffynhonnell ddamweiniol neu fwriadol.

- Disgrifiodd **Iechyd Cyhoeddus Cymru** ei rôl ym meysydd atal, ymateb ac adfer, a galwodd am ddull gweithredu integredig o ymdrin â ffactorau amgylcheddol a dynol a'u heffeithiau ar iechyd a llesiant. Roedd yn credu y gallai gwyddoniaeth ymddygiadol helpu i lunio ymgyrchoedd gan ddefnyddio effeithiau go iawn a lleisiau dibynadwy; gallai negeseuon wedi'u cynllunio'n wael arwain at ganlyniadau anfwriadol. Gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru helpu i nodi'r galluoedd arbenigol, y mesurau polisi a'r ymchwil y mae eu hangen, yn enwedig i ddeall anghydraddoldebau a diogelu'r rhai sydd fwyaf agored i'r niwed a achosir gan

effeithiau tanau gwyllt. Cytunodd hefyd fod Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn cynnig modd o gydgysylltu partneriaid a chryfhau parodrwydd, gan gynnwys gwydnwch ysgolion, i amharu cyn lleied â phosibl ar deuluoedd, gweithleoedd a chymunedau.

- Pwysleisiodd **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** mai atal oedd y dull mwyaf effeithiol o leihau niwed, gan adleisio sylwadau'r Cenhedloedd Unedig yn eu cyflwyniad. Mae'r gwaith ataliol a wnaed gan y Gwasanaethau Tân ac Achub dros y ddau ddegawd diwethaf wedi sicrhau manteision sylweddol i gymunedau. Nododd y Gwasanaeth fod Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru eisoes yn dwyn ynghyd y Gwasanaethau Tân ac Achub, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, tirfeddianwyr ac awdurdodau lleol ac mae ei Siarter Tanau Gwyllt yn darparu fframwaith cyffredin sy'n gosod atal, parodrwydd, addasu a chydweithio wrth wraidd ymateb Cymru i newid hinsawdd. Mae'n credu felly y dylai'r gwersi o dymor tanau gwyllt eleni lywio gwelliannau i strwythur a chyrhaeddiad y Bwrdd, yn hytrach na chreu fframwaith newydd.

- Roedd **Undeb y Brigadau Tân** yn cefnogi gwaith ymgysylltu â phobl ifanc, gan rybuddio bod dirywiad yn y ddarpariaeth gymunedol megis llyfrgelloedd, clybiau chwaraeon, a chlybiau ieuenctid, yn tanseilio gwaith ataliol. Croesawodd Undeb y Brigadau Tân adroddiad diwedd blwyddyn y Prif Swyddog Meddygol sydd i ddod, a chyfeiriodd at ymchwil sy'n dangos risgiau uwch o ganser, clefyd cardiofasgwlaidd a strôc sy'n gysylltiedig â diffodd tanau. Gan nodi bod Sefydliad Iechyd y Byd wedi cydnabod yn 2022 fod diffodd tanau yn alwedigaeth garsinogenig, galwodd yr Undeb am fonitro iechyd cryfach ac am ddysgu gwersi gan wledydd sydd â deddfwriaeth dybiedig. Mae cyfnodau hir o ddelio â thanau gwyllt yn golygu dod i fwy o gysylltiad â halogion a llai o gyfle i ddihalogi; dylai mesurau amddiffyn fynd i'r afael ag amsugno halogion drwy'r croen yn ogystal a'u hanadlu, gan gefnogi gwaith teg a theilwng o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

- Roedd **Dŵr Cymru** yn cefnogi ymgyrchoedd ac addysg cydgysylltiedig ar draws sectorau, gan nodi ei ymgyrch ar y cyd â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub sy'n dangos sut y gall negeseuon cyson gan bartneriaid gynyddu'r effaith. Roedd hefyd yn cefnogi cynnal adolygiad o Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru. Gallai effeithiau tanau barhau am fisoedd neu flynyddoedd, gan effeithio ar iechyd meddwl a chorfforol, ansawdd dŵr a dalgylchoedd; dylai grŵp ehangach o bartneriaid ystyried y canlyniadau tymor hwy hynny.

- Pwysleisiodd **Panel Cynghori ar Aer Glân Llywodraeth Cymru** effeithiau sylweddol llygredd aer ar iechyd a'r angen i asesu a lleihau pa mor aml y daw pobl i gysylltiad â mwg tanau gwyllt, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Tynnwyd sylw'r uwchgynhadledd at dargedau ansawdd aer 2035 a'r angen am strategaeth wedi'i llywio gan adnoddau, arbenigedd a thystiolaeth wyddonol bresennol i leihau pa mor aml y daw pobl i gysylltiad â halogion a'r effeithiau ar eu hiechyd; mae gan y Panel Cynghori ar Aer Glân y gallu i adolygu tystiolaeth ar fwg, effeithiau ar iechyd ac atal a allai lywio ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd. Cynigiodd y Panel ehangu ar y Cynllun Cyflawni Hyrwyddo Ymwybyddiaeth o Lygredd Aer yng

Nghymru i gryfhau dulliau cyfathrebu â'r cyhoedd, addysg a gwaith ymgysylltu ag ysgolion.

- Nododd **y Swyddfa Dywydd** y gallai mwg tanau gwyllt effeithio ar iechyd ymhell o danau, gan waethygu llygredd aer trefol a gorgyffwrdd â risgiau gwres ac alergeddau, gan wneud y gwaith o lunio negeseuon cyhoeddus yn fwy cymhleth. Galwodd am gydgysylltu drwy Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru a grwpiau ehangach fel Partneriaeth Peryglon Naturiol y DU gyfan, a mwy o ddefnydd o wasanaeth rhagweld tanau gwyllt presennol y DU gyfan. Mae'n credu y dylai partneriaid ehangu ar arferion da presennol y DU mewn gwaith ymgysylltu ac addysg gyda chymunedol lleol, gan gynnwys gemau ac adnoddau ar gyfer ysgolion a grwpiau ieuenctid sy'n cwmpasu tanau gwyllt ochr yn ochr â pheryglon eraill, oherwydd gallai paratoi ar gyfer un perygl hefyd gryfhau parodrwydd ar gyfer peryglon eraill. Cynigiodd y Swyddfa Dywydd gefnogi'r cydweithio hwn.

- Defnyddiodd **y Weinyddiaeth Amddiffyn** ei gwaith gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru dros yr haf i dynnu sylw at gyfleoedd i gryfhau gwydnwch cymunedol. Mae'n credu y gallai clybiau chwaraeon lleol a sefydliadau cymunedol eraill ddarparu cymorth a roddir gan filwyr ar hyn o bryd, gan fanteisio ar eu gwybodaeth am yr ardal. Gallai grwpiau ieuenctid, gan gynnwys cadetiaid, hefyd gefnogi addysg a chyfranogiad ehangach. Awgrymwyd y gallai llu amddiffyn a gwydnwch cenedlaethol fod yn ddull gweithredu posibl yn y tymor hwy. Tynnodd sylw hefyd at y cyfle i ddefnyddio'r fargen twf amddiffyn a'r clwstwr amddiffyn a diogelwch i ddatblygu technoleg ar gyfer anghenion gwydnwch ehangach. Mae un cwmni wedi modelu newidiadau'r gwynt yn Llangynidr gan ddefnyddio deallusrwydd artiffisial, sy'n dangos sut y gallai mapio helpu i lywio camau gweithredu ataliol a'r defnyddi o adnoddau. Bydd cystadleuaeth sy'n cael ei chynllunio ar gyfer mis Hydref 2027 yn gwahodd y gwasanaethau brys a chymunedau i nodi problemau ymarferol i ddiwydiant fynd i'r afael â nhw, gan fod o fudd i ardaloedd gwledig a threfol yn hytrach na chanolbwyntio ar amddiffyn yn unig.

- Tynnodd **Cymdeithas y Gwasanaethau Tân ac Achub** sylw at yr effeithiau y mae tanau gwyllt yn eu cael ar iechyd meddwl diffoddwyr tân, gan gyfeirio at adroddiadau rhyngwladol am gyfraddau hunanladdiad cynyddol mewn ardaloedd â pherygl uwch o danau gwyllt a'r trawma o fethu â diogelu eu cymunedau eu hunain. Roedd y Gymdeithas yn cefnogi addysg wedi'i thargedu. Fel enghraifft, cyfeiriwyd at raglen yn Dorset a sefydlwyd yn 2000 sy'n defnyddio addysgwyr proffesiynol i gyrraedd pob ysgol iau ac ysgol uwchradd, gan gyflawni gostyngiad parhaus o 60% mewn achosion o danau digroeso o fewn pedair blynedd. Mae Firewise UK hefyd wedi helpu aelwydydd a chymdogaethau i wella gwydnwch mewn perthynas â chartrefi a gerddi sy'n ffinio â thir gwledig; mae angen cefnogaeth genedlaethol i ehangu'r gwaith hwn.

- Nododd **Prif Weithredwr y Pwyllgor Newid Hinsawdd** y gallai tanau gwyllt, gwres eithafol a sychder gyd-daro, gan roi pwysau ar yr un pryd ar y gwasanaethau brys a'r gwasanaethau iechyd yn sgil ansawdd aer gwael, salwch sy'n gysylltiedig â gwres a llai o fynediad at ddŵr. Dangosodd data ynghylch y tywydd poeth

eithriadol ddechrau'r haf, sydd ar gael ar gyfer GIG Lloegr yn unig, bod 8,800 o alwadau wedi'u gwneud, sef y nifer uchaf erioed, i ganolfannau galwadau'r GIG yn ymwneud â salwch anadlol a mathau eraill o salwch sy'n gysylltiedig â gwres, gan gynnwys risgiau tanau gwyllt—sy'n fwy na nifer y galwadau a wnaed pan oedd pandemig COVID-19 yn ei anterth. Mae yna debygolrwydd felly, y gallai'r gwasanaethau iechyd wynebu galw eithriadol o uchel yn yr haf a'r gaeaf, gyda materion staffio a chapasiti yn ystod yr haf o bosibl yn gofyn am ymateb tebyg i'r hyn a fu yn ystod y pandemig. Mae angen dull cydgysylltiedig o gynllunio ar draws y gwasanaethau brys a'r gwasanaethau iechyd, ochr yn ochr â mesurau ataliol fel oeri cartrefi gofal a chartrefi pobl hŷn, cryfhau mannau cymunedol a'r capasiti lleol i ymateb, a gwella prosesau rhannu gwybodaeth ag unigolion. Dylid mynd i'r afael â thanau gwyllt o fewn y set ehangach, gynyddol heriol hon o risgiau yn hytrach nag ymdrin â'r mater ar wahân.

- Roedd **Cyfoeth Naturiol Cymru** yn cefnogi mynd i'r afael â thanau gwyllt ochr yn ochr â pheryglon eraill. Mae gwaith a arweiniodd at y bartneriaeth Llethrau Llon wedi dangos sut y gallai tanau ansefydlogi tir, gan gynyddu'r risg o dirlithriadau ac o bridd a malurion yn cael eu hysgubo i lawr y llethrau yn ystod cyfnodau o law trwm yn y gaeaf. Mae'r tanau diweddar wedi golygu bod ardaloedd helaeth o Gymru yn agored i'r effeithiau hyn am flynyddoedd. Roedd hefyd yn teimlo y gallai Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru ar ei newydd wedd helpu i sicrhau bod ymgyrchoedd a gwaith ar barodrwydd yn mynd i'r afael â'r risgiau tymor hwy, ehangach hyn.

- Nododd **Cymdeithas y Ffermwyr Tenant** fod bron pob tân gwyllt yn cael ei achosi gan weithgarwch pobl, a bod llawer ohonynt yn dechrau yn sgil colli gafael ar waith llosgi dan reolaeth. Mae angen nifer ddigonol o bobl, cyfarpar priodol ac adnoddau digonol ar unrhyw un sy'n gwneud gwaith llosgi dan reolaeth i'w reoli'n ddiogel. Mae enghreifftiau hanesyddol yn dangos y gallai gwaith llosgi sy'n cael ei reoli'n wael achosi difrod sylweddol sy'n golygu ei bod hi'n cymryd blynyddoedd i'r tir adfer. Felly, mae'r Gymdeithas yn galw am gymhellion i gefnogi prosesau rheoli tir effeithiol, gan gynnwys lefelau stocio addas a phori cynhyrchiol, ac i ffermwyr a chiperiaid weithio gyda'i gilydd mewn niferoedd digonol.

- Pwysleisiodd **Ymddiriedolaethau Natur Cymru** yr angen am benderfyniadau sy'n mynd i'r afael â heriau rhyng-gysylltiedig yn hytrach na materion unigol ar eu pen eu hunain. Mae'n credu bod lleihau lledaeniad tanau gwyllt yn gofyn am ystyried y system gyfan, gan gynnwys yr her gynyddol o gadw dŵr yn y dirwedd. Mae hefyd yn credu bod iechyd ataliol a rheoli tir yn effeithio ar lawer o'r un bobl ac y dylid eu hystyried ar y cyd, ac y dylai penderfyniadau gefnogi gweithrediad ac addasu ecosystemau cyfan, gan gynnwys atebion sy'n seiliedig ar natur a ddatblygir gyda ffermwyr.

- Galwodd **Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru** am ymgyrch genedlaethol ragweithiol i hybu mynediad cyfrifol i gefn gwlad, yn enwedig yn ystod cyfnodau o dywydd poeth, sych. Dylid esbonio'n glir y risgiau a'r canlyniadau o gynnau tanau yn ddiofal ac yn fwriadol, gyda chefnogaeth camau gorfodi effeithiol a chyfyngiadau neu waharddiadau ar weithgareddau a chyfarpar sy'n peri risg tân yn ystod cyfnodau risg uchel.

9. Wrth gloi'r drafodaeth, diolchodd y Dirprwy Weinidog dros Iechyd Cyhoeddus ac Ataliol i'r holl gyfranogwyr i'r holl gyfranogwyr, a nododd yr ystod eang o gyfraniadau a wnaed. Tynnodd y Dirprwy Weinidog y prif themâu ynghyd ac adleisiodd yr angen am fwy o gydlyniant a chydweithredu rhwng pawb sydd wedi gymryd ran. Tynnodd y Dirprwy Weinidog sylw at y blaenoriaethau canlynol:

    - Adnewyddu Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru ac adolygu ei gyfrifoldebau.
    - Cydgysylltu ymgyrchoedd ac addysg yn well, gan rannu adnoddau i ehangu gweithgarwch lleol effeithiol. Mynd i'r afael â'r cyfrifoldebau darniog a amlygwyd yng nghyflwyniad y Cenhedloedd Unedig fel y gellir llunio strategaeth genedlaethol sy'n cefnogi gwaith cyflawni lleol.
    - Ystyried yn gyson anghydraddoldebau iechyd ac effeithiau ar gymunedau bach wrth ddatblygu ymatebion.
    - Ehangu ar waith gwydnwch cymunedol awdurdodau lleol, gan fanteisio ar brofiad Blaenau Gwent a Thorfaen, lle mae dull Marmot o ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd wedi helpu cymunedau i addasu eu gallu i ymateb i lifogydd i ddigwyddiadau eraill. Gallai gwasanaethau cyhoeddus gymhwyso'r egwyddorion hyn yn ehangach i gryfhau gwydnwch cymunedol.

10. Cymeradwyodd y Dirprwy Weinidog sylwadau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd ar y pwysau sydd ar y gwasanaethau iechyd, gan nodi bod tystiolaeth debyg yng Nghymru. Er bod datganiad mis Gorffennaf yn canolbwyntio ar y gaeaf, roedd y Gweinidog wedi pwysleisio bod sicrhau parodrwydd yn digwydd drwy gydol y flwyddyn, a bod angen capasiti gwasanaethau ac ystadau gwydn, gan gynnwys yn yr haf.

Eitem 5 ar yr Agenda – Ymateb i danau gwyllt o safbwynt diffoddwyr tân a chydgysylltu'r ymateb brys ehangach

11. Diolchodd y Gweinidog Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio i ddiffoddwyr tân a phartneriaid am eu hymateb i danau gwyllt yr haf, gan nodi'r dinistr a'r cydweithio cadarnhaol ac effeithiol a welwyd yn ystod ymweliad â safle tân y Rhinogydd. Gyda disgwyl i ragor o danau gwyllt gynnau, pwysleisiodd y Gweinidog yr angen i ddysgu gwersi ar draws y Gwasanaethau Tân ac Achub ac asiantaethau partner. Yn dilyn sesiwn ôl-drafod y partneriaid strategol ynghylch y tanau gwyllt ar 8 Medi, cadarnhaodd y Gweinidog Cabinet ei bod wedi gofyn i'r Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub gynnal arolwg o'r trefniadau ymateb yn ystod yr haf a'r capasiti cyffredinol i ddelio â thanau gwyllt. Cadarnhaodd fod trafodaethau'n parhau â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ar gymorth o'r awyr fel mater sy'n effeithio ar y DU gyfan, ochr yn ochr â phroses arfaethedig o gyfnewid gwybodaeth ag arbenigwyr o Awstralia, ond pwysleisiodd mai dim ond un rhan o'r ymateb oedd cymorth o'r awyr a bod angen deall hyn yn well.

12. Yn ystod y drafodaeth, gwnaed y myfyrdodau a'r cynigion canlynol gan y sefydliadau a oedd â chynrychiolaeth yn yr uwchgynhadledd:

- Nododd **Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru** fod pwysau sylweddol ar gapasiti yn ystod tanau gwyllt yr haf. Er gwaethaf arbenigedd a chymorth sylweddol gan 22 o wasanaethau tân ac achub y DU, roedd digwyddiadau ar yr un pryd yn cyfyngu ar gymorth cydfuddiannol. Cafodd diffoddwyr tân eu galw yn ôl ar ddiwrnodau gorffwys a gofynnwyd am gymorth milwrol ar gyfer logisteg dŵr i ryddhau criwiau arbenigol. Mae'r gwasanaeth yn credu bod angen cynnal adolygiad o'r rhagdybiaethau ynghylch capasiti'r DU i ymateb a gyflwynwyd yn y 2010au wrth i newid hinsawdd gynyddu amlder tanau gwyllt, gyda phwysau tebyg yn bosibl o ran llifogydd ac argyfyngau mawr eraill. Mae'r blaenoriaethau yn cynnwys mwy o gapasiti ymchwydd, cyfarpar diogelu personol wedi'i addasu, buddsoddiad mewn diffodd tanau o'r awyr ar lefel y DU, a dronau a lloerennau ar gyfer gwaith ataliol, rhagweld ac atal achosion o danau bwriadol. Mae angen integreiddio gwaith ataliol yn well, gan gynnwys ymgysylltu ag ysgolion, yn enwedig mewn perthynas ag achosion o danau bwriadol. Mae nifer y diffoddwyr tân yn cynyddu'n raddol o fewn terfynau ardollau awdurdodau lleol; mae angen buddsoddiad, ond ystyrir bod diffyg gweithredu yn fwy costus. Fe wnaethant alw am drafodaeth gyhoeddus agored am y risgiau a'r hyn a ddysgwyd o ddull integredig Sweden o baratoi cymdeithas ar gyfer argyfyngau a rhyfel.

- Disgrifiodd **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru** haf digynsail, gyda chwe thân gwyllt ar yr un pryd a datgan digwyddiad mawr yn tanlinellu'r angen am wasanaethau gwydn. Roedd diffoddwyr tân ar alwad yn darparu dros 50% o'r ymateb brys yng Nghymru, gan gyfuno eu prif swyddi ag ymrwymiadau gwirfoddol i hyfforddi, cario galwyr ac ymateb yn lleol. Dangosodd yr ymateb werth cyfuno diffoddwyr tân amser cyflawn ac ar alwad, gyda chriwiau ar alwad yn cydbwyso cyfnodau hir o ddiffodd tanau gyda swyddi, busnesau ac ymrwymiadau teuluol, ac yn gwneud hynny dros ar ôl tro. Myfyriodd y gwasanaeth fod gwaith atal llwyddiannus wedi lleihau tanau damweiniol mewn anheddau yn sylweddol dros y blynyddoedd, ond bod y gostyngiad yn yr angen i ymateb i danau o ganlyniad i hynny hefyd wedi cyd-fynd â gostyngiadau yn nifer y diffoddwyr tân ac adnoddau yn ystod cyfnod o gyni cyllidol tua 2010. Mae newid hinsawdd a thechnoleg newydd bellach wedi cynyddu amlder, hyd a chymhlethdod digwyddiadau, sy'n golygu bod angen criwiau mawr am ddyddiau neu wythnosau gan cynnal y gwasanaeth ymateb brys ar draws Gogledd Cymru. Mae prosesau diweddar i recriwtio diffoddwyr amser cyflawn ac ar alwad wedi cryfhau'r gwasanaeth ymateb brys mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys drwy ddwy orsaf amser cyflawn newydd a agorwyd y flwyddyn flaenorol. Mae pobl yn dal i gamu ymlaen. Yr her yw sicrhau cyllid, hyfforddiant a gwydnwch i'w defnyddio'n effeithiol, yn hytrach na recriwtio. Mae angen adnoddau sy'n cyd-fynd â maint a chymhlethdod digwyddiadau. Roedd y gwasanaeth yn gobeithio y byddai'r uwchgynhadledd yn sbarduno gweithredu ystyrlon i sicrhau bod diffoddwyr tân yn cael yr adnoddau, yr hyfforddiant a'r gefnogaeth angenrheidiol.

- Mae **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** yn cwmpasu bron dwy ran o dair o Gymru, gan gynnwys cymunedau gwledig ac amaethyddol anghysbell, parciau cenedlaethol, coedwigaeth a thirweddau amgylcheddol arwyddocaol. O'i 56 gorsaf, mae gan 52 ohonynt elfennau ar alwad, gyda staff yn

cydbwyso eu prif swyddi a chyfrifoldebau ymateb brys. Fe wnaeth diffoddwyr tân ar alwad ac amser cyflawn, swyddogion, staff yr ystafell reoli a staff corfforaethol ymateb i'r galw eithriadol a hirhoedlog yn sgil tanau gwyllt. Fe wnaeth ffermwyr ddarparu mynediad, offer a dŵr, a chefnogi cymunedau yr effeithiwyd arnynt neu a ddadleolwyd. Roedd y Gwasanaeth yn cefnogi rôl gwydnwch ehangach a deialog barhaus ledled y DU, gan nodi bod dyletswydd statudol gwasanaethau tân ac achub Cymru i ymateb i achosion o lifogydd ac achub o ddŵr ers 2017 yn sail i'w rôl ehangach mewn perthynas â'r hinsawdd. Mae'r tanau gwyllt diweddar yn amlygu'r angen am gyfarpar arbenigol, gwell mynediad at ardaloedd diarffordd a mwy o amddiffyniad i ddiffoddwyr tân. Gan roi sylw arbennig i amddiffyn diffoddwyr tân, croesawodd y Gwasanaeth y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Prif Swyddog Meddygol. Mae'r Gwasanaeth yn credu bod yn rhaid i fesurau ataliol ategu'r ymateb, gyda buddsoddiad mewn cymunedau, gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaethau i gryfhau gwydnwch a chefnogi'r gwaith o addasu i'r hinsawdd.

- Pwysleisiodd **Undeb y Brigadau Tân** y dylai mesurau ataliol ategu, yn hytrach na chystadlu â'r ymateb. Mae'n credu bod gostyngiad o 400 o ddiffoddwyr tân yng Nghymru a 12,000 ledled y DU ers 2010 yn golygu nad yw gwasanaethau yn gallu ateb y galw, gan greu risgiau annerbyniol i ddiffoddwyr tân a'r cyhoedd. Mae newid hinsawdd yn gwneud tactegau sefydledig yn llai dibynadwy ac yn cynyddu'r risgiau i les a diogelwch diffoddwyr tân. Mae prinder staff hefyd yn cyfyngu ar hyfforddiant a'r gallu i gynyddu capasiti yn ystod digwyddiadau mawr. Galwodd yr Undeb am fuddsoddiad yn ddi-oed mewn staffio, hyfforddiant a chyfarpar i ymateb i risgiau drwy gydol y flwyddyn, gan ddefnyddio deg o alwadau y DU gyfan mewn perthynas â thanau gwyllt. Mae'n cefnogi gwydnwch cymunedol, ond yn pwysleisio na ddylai hyn gymryd lle gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu hariannu'n ddigonol.

- Pwysleisiodd **y Swyddfa Dywydd** fod atal, parodrwydd, ymateb ac adfer yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae newid hinsawdd yn cynyddu'r galw drwy gydol y flwyddyn, gan godi pryderon am ddiffyg adnoddau. Gallai gwneud defnydd gwell o ragolygon y tywydd, rhagamcanion yr hinsawdd a data arsylwi wella prosesau cynllunio ac effeithlonrwydd, ochr yn ochr ag adnoddau ychwanegol. Cynigiodd y Swyddfa Dywydd gefnogaeth i gael mynediad at ei ddata ac i ddefnyddio'r data hynny, a oedd yn amrywio o ragolygon uniongyrchol i ragamcanion ar gyfer diwedd y ganrif. Roedd yn cydnabod cyfyngiadau'r data hynny ac amlygodd gyfleoedd i'w gwella drwy gydweithrediad agosach a gwell dealltwriaeth o anghenion y defnyddwyr. Gallai rhannu gwybodaeth a gesglir gan bartneriaid, gan gynnwys delweddau dronau sy'n dangos maint y tanau, wella prosesau modelu a chefnogi defnyddiau ehangach heb fawr o gost ychwanegol.

- Roedd **RSPB Cymru** yn cydnabod gwaith y gwasanaethau tân ac achub dros yr haf, gan gynnwys diogelu ei safleoedd a'i gwarchodfeydd. Mae profiadau ar rai o'i gwarchodfeydd yn y DU wedi tynnu sylw at anawsterau o ran sicrhau contractwyr sydd â chyfarpar addas ar fyr rybudd i greu strimynnau atal tân brys. Er gwaethaf cynllunio ymlaen llaw, gallai amodau newidiol olygu bod angen gwaith brys ar lawr gwlad, gan wneud mynediad at gontractwyr sydd â chyfarpar addas yn bwysig.

- Cynigiodd **y Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd** wasanaeth gwirfoddol wedi'i gydgysylltu'n genedlaethol i ategu, nid i ddisodli, y tri gwasanaeth tân ac achub wrth i danau gwyllt mawr, cymhleth ddigwydd yn amlach. Byddai wedi'i seilio'n fras ar y gwasanaeth achub mynydd ac yn dwyn ynghyd swyddogion tanau gwyllt hyfforddedig o feysydd coedwigaeth, ffermio a sefydliadau rheoli tir eraill, ac yn gweithredu yn unol â threfniadau cydnabyddedig rheoli digwyddiadau. Gallai eu gwybodaeth leol am y dirwedd, mynediad a ffynonellau dŵr, gyda chymorth cofrestr o gyfarpar preifat sydd ar gael drwy drefniadau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw, alluogi mynediad cyflymach i ddigwyddiadau anghysbell a chefnogi prosesau atal, parodrwydd, ymateb ac adferiad. Gallai'r gwasanaeth fod â thimau rhanbarthol, a chael hyfforddiant safonol a chytundebau ffurfiol gyda'r gwasanaethau brys. Byddai angen cyllid cyhoeddus i sicrhau parodrwydd a chyfarpar arbenigol, ochr yn ochr â ffynonellau cyllid eraill; byddai'r rhai sy'n gofyn am roi'r gwasanaeth ar waith yn talu eu costau eu hunain. Awgrymwyd cynnal cynlluniau peilot yn ucheldiroedd y Canolbarth, Bannau Brycheiniog a Mynyddoedd Cambria. Awgrymodd y sefydliad hefyd y gallai Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru gyfrannu at ddatblygu atebion.

- Diolchodd **CLlLC** i sefydliadau am gefnogi cymunedau yn ystod tanau gwyllt yr haf a chynigiodd helpu i fynd i'r afael â'r pwysau ar adnoddau lle bo modd gwneud hynny. Tynnodd y Gymdeithas sylw at gyfraniad hanfodol ffermwyr yr ucheldiroedd. Roedd eu gwybodaeth leol wedi helpu i gyfyngu ar hyd ac effaith tanau mewn tirwedd anodd. Awgrymodd gynnal hyfforddiant ar y cyd i ffermwyr a staff tân ac achub i wneud gwell defnydd o'r wybodaeth honno a chryfhau'r ymateb yn y dyfodol.

- Tynnodd **Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru** sylw at rôl ffermwyr wrth gefnogi'r gwasanaethau brys mewn perthynas â chymorth cyntaf, sicrhau mynediad i beiriannau tân a chyflenwadau dŵr ar gyfer diffodd tanau. Mae cadw ffermwyr ar y tir yn hanfodol i gynnal y gefnogaeth honno. Mae angen i gynlluniau ar gyfer tanau gwyllt a chaniatâd perthnasol fod ar waith ymlaen llaw; gallai sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer pyllau dŵr gymryd dros ddwy flynedd. Galwodd y sefydliad am gydgysylltu gwell rhwng y gwasanaethau brys a rheolwyr tir o ran parodrwydd, ymateb ac adferiad. Dylai cynlluniau argyfwng lleol gynnwys ffermwyr a thirfeddianwyr, gan ddefnyddio mapio, data a rhybuddion cynnar i ganfod cyflenwadau dŵr, llwybrau mynediad ac adnoddau diffodd tanau. Dylai cymorth adfer sicrhau bod tir a seilwaith sydd wedi'u difrodi yn cael eu hadfer a helpu busnesau yr effeithir arnynt i ddychwelyd i sefyllfa o fod yn gynhyrchiol.

- Nododd **Dŵr Cymru** fod galw eithriadol yn ystod yr haf wedi rhoi'r broses o ddosbarthu dŵr dan straen ac wedi golygu bod rhai cymunedau wedi dod yn agos at golli cyflenwadau, er gwaethaf lefelau digonol mewn cronfeydd dŵr. Roedd y galw dyddiol wedi codi o 850 miliwn litr i ychydig llai na 1.1 biliwn litr am 40 diwrnod yn olynol. Galwodd am welliannau gweithredol a chynllunio ar y cyd â phartneriaid y gwasanaethau brys i nodi ffynonellau dŵr i ddiffodd tanau heb beryglu'r cyflenwadau cyhoeddus. Gofynnodd hefyd a oedd yr amcangyfrif o £11 biliwn ar gyfer addasu i'r hinsawdd yn ddigonol. Er gwaethaf buddsoddiad o £1

biliwn bob blwyddyn, mae bodloni'r gofynion presennol yn parhau i fod yn heriol; mae angen i bartneriaid flaenoriaethu buddsoddiad fforddiadwy i amddiffyn cymunedau a'r amgylchedd wrth i bwysau yn ymwneud â'r hinsawdd gynyddu.

13. Wrth gloi'r drafodaeth, diolchodd y Gweinidog Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio i'r cyfranogwyr am eu cyfraniadau gan gydnabod y pwysau ar gapasiti sy'n wynebu'r Gwasanaethau Tân ac Achub. Ategodd y Gweinidog Cabinet y byddai adolygiad yn cael ei gomisiynu i archwilio capasiti y gwasanaethau ac i ddysgu gwersi o'r ymateb yn ystod yr haf.

Eitem 6 ar yr Agenda – Crynodeb a sylwadau i gloi

14. Wrth gloi'r cyfarfod, diolchodd y Prif Weinidog i'r holl gyfranogwyr am eu cyfraniadau a chroesawodd yr ystod o safbwyntiau a rannwyd. Nododd y diben cyffredin a oedd yn amlwg drwy gydol y drafodaeth gan grynhoi'r themâu sy'n dod i'r amlwg a'r meysydd lle mae yna gonsensws ar gyfer y camau nesaf:

    - Cryfhau Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru gyfan, gan adlewyrchu'r angen clir a nodwyd yn ystod y drafodaeth.
    - Mynd ati'n gyflym i wella dealltwriaeth o rôl rheoli tir o ran mynd i'r afael â'r risg o danau gwyllt, gan gynnwys y Rheolau Llosgi Grug a Glaswellt, gan sicrhau dull gweithredu cytbwys.
    - Rhoi mwy o bwyslais ar atal tanau gwyllt, gan ddysgu o lwyddiant y gwasanaethau tân ac achub wrth leihau tanau mewn tai drwy ddulliau ataliol.
    - Meithrin gwydnwch cenedlaethol i danau gwyllt drwy weithredu ar y cyd ac ymgysylltu â phobl Cymru a'u cynnwys yn y gwaith.
    - Cefnogi ymweliadau gan y gwasanaethau tân ag ysgolion i drafod atal fel rhan o waith ehangach, ar y cyd i gryfhau gwydnwch, gan ddatblygu'r syniadau cadarnhaol sy'n dod i'r amlwg yn sgil y drafodaeth.
    - Mynd i'r afael â'r pwysau ar gapasiti drwy'r adolygiad arfaethedig o ymateb y Gwasanaethau Tân ac Achub dros yr haf a fydd yn sefydlu'r camau cychwynnol ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Gydag adnoddau cyfyngedig y disgwylir iddynt ostwng yn ystod y flwyddyn ganlynol, byddai angen cytuno ar flaenoriaethau, gan gynnwys lle gellid lleihau gweithgarwch i ddiogelu'r gwaith pwysicaf. Dylai partneriaid ystyried sut i baratoi ar gyfer gwelliannau os bydd llai o wasgfa ar adnoddau mewn blynyddoedd dilynol.
    - Meithrin gwell dealltwriaeth o'r capasiti ehangach sydd ar gael ar draws cymunedau, amaethyddiaeth a llywodraeth leol, gan gynnwys cymorth ymarferol fel cyflenwi dŵr ar gyfer diffodd tanau. Mae dod â'r capasiti hwn ynghyd yn hanfodol i ymateb i'r her ar y cyd, gyda phawb â rhan i'w chwarae.

15. Croesawodd y Prif Weinidog yr ymdeimlad cyffredin o ddiben ymhlith y cyfranogwyr, a oedd wedi cyfrannu at y drafodaeth, wedi gwrando ar ei gilydd ac wedi galw am weithredu ar y cyd. Fe wnaeth gydnabod ei rôl ei hun a rôl ei Weinidogion, gan bwysleisio bod yr holl bartneriaid yn rhannu cyfrifoldeb am fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Pwysleisiodd y Prif Weinidog nad yw'r cyfarfod yn nodi diwedd y broses, ond ei

fod yn gyfle i gyflymu'r gwaith ymgysylltu ymhlith y partneriaid. Diolchodd i bawb am eu cyfraniadau ac roedd yn edrych ymlaen at y gwaith ymgysylltu parhaus hwnnw.